

Archwiliad mewn i effeithiau a hygyrchedd chwarae awyr agored mewn addysg cynnar plentyn

Crynodeb

Cefndir

Agwedd bwysig yn ystod taith addysgiadol plentyn yn y blynyddoedd cynnar yw effeithiau a hygyrchedd chwarae awyr agored. Mae nifer o bolisiâu a fframweithiau wedi eu cyflwyno yn yr ugain mlynedd diwethaf i sicrhau bod pob plentyn gyda'r hawl i chwarae yn yr awyr agored, a dylai hyn cael ei ddefnyddio fel arf yn ystod eu teithiau dysgu er mwyn cyfoethogi eu profiadau. Mae llawer o effeithiau positif o ganlyniad i chwarae awyr agored ond dengys tystiolaeth bod hefyd bethau negyddol ymhlith ei hygyrchedd. Mae'r papur hwn yn dangos bod mwy o elfennau positif na negatif i ymwneud â hygyrchedd chwarae awyr agored.

Dulliau

Defnyddiwyd dau sampl yn yr archwiliad. Roedd sampl un yn cynnwys tri deg o rieni/gofalwyr disgyblion yn nosbarth blwyddyn dau. Roedd yr ail sampl yn cynnwys 8 o athrawon addysgu yn y cyfnod sylfaen. Yn sampl un cylchredwyd holiadur anhysbys gan gynnig opsiwn ar-lein neu ar bapur yn holi set o gwestiynnau wedi eu paratoi o flaen llaw. Yn sampl dau cynaliwyd cyfweiliadau unigol gyda'r athrawon â set o gwestiynnau wedi eu paratoi o flaen llaw ar hygyrchedd chwarae awyr agored yn eu ysgol. Roedd y ddau sampl wedi derbyn cwestiynnau dulliau cymysg.

Ystyriaethau moesolegol

Yr ystyriaethau moesolegol a ystyriwyd oedd cyfranogi gwirfoddol (doedd dim gorfodaeth ar rieni i ymateb i'r holiadur), cyfranogwyr yn cydsynio i gymryd rhan, caniatâd gwybodus gwirfoddol, cyfrinachedd, urddas a gwarchod anhysbysrwydd. Gweithiwyd o fewn egwyddorion moesolegol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaethau diogelu data a gwarchod hawliau cyfranogwyr.

Adolygiad Llenyddiaeth

Mewn cyfrol gan Bento a Dias (2017), nodir bod chwarae awyr agored yn darparu gwahanol fathau o gyfleoedd chwarae ni allai gael eu cyflwawni drwy chwarae tu fewn. Yn y gyfrol, maent yn disgrifio chwarae awyr agored fel amgylchedd sy'n newid yn gyson, lle mae'n bosib teimlo rhyddid wrth ddod mewn cyswllt ag elfennau naturiol. Mae theori Vygotsky (1933) yn nodi bod llawer o fuddion i chwarae awyr agored drwy ddweud bod chwarae yn

cael ei weld fel gweithgaredd cymdeithasol. Gyda rhieni ac athrawon yn hybu'r math hyn o chwarae gall plentyn blynyddoedd cynnar ddatblygu sgiliau gwybyddol, emosiynol ac echddygol. I gefnogi pwysigrwydd chwarae, fe wnaeth siarter Cynghrair y Cenhedloedd Unedig (1989) sicrhau fod gan pob plentyn yr hawl i chwarae. Mae amgylcheddau natur yn darparu llawer o bosibiliadau gwahanol drwy ryngweithio ag elfennau megis planhigion, coed a phryfed. Mae sawl ysgol o amgylch y byd o'r enw 'Forrest School', sef ysgol sy'n defnyddio chwarae awyr agored fel ei phrif bwynt dysgu, ac maent yn sicrhau mynediad i'r awyr agored ar bob adeg. Maent yn awgrymu ei fod yn datblygu hyder ac hunan barch drwy brofiadau ymarferol o fewn amgylchedd naturiol. Mae 'Forrest School' yn ysbrydoli cysylltiadau dwfn ac ystyrlon i helpu plant ddeall sut maent yn perthyn i'r byd (Forrest School Association, 2024).

Gellir hefyd nodi nad yw chwarae yn yr awyr agored yn bosibl i blant ifanc ar bob adeg. Mae Ji Hyun Oh (2023) yn nodi bod tywydd yn ffactor s'n effeithio'n enfawr ar fynediad chwarae awyr agored. Pan mae'r tywydd yn arw neu'n rhy boeth nid yw'n bosibl i fynd allan i chwarae gan nad yw'n ddiogel i'r plant. Mae'r athrawon a wnaeth gymryd rhan yn ymchwil y gyfrol yma'n nodi anfanteision chwarae awyr agored megis, cnoiadau pryfed, alergeddau, plant yn agored i niwed gan anifeiliad neu blanhigion gwenwynig a diffyg offer a gwagle. Fe ddywedodd un athrawes fod ganddi ofn o'r amodau peryglus all fod yn yr awyr agored oherwydd ei phrif swydd yn ystod chwarae awyr agored yw i gadw'r disgyblion yn ddiogel. Mae'r gyfrol hefyd yn nodi bod athrawon yn teimlo fel bod diffyg offer ar gael iddynt ddefnyddio gyda'u disgyblion sy'n gwneud chwarae awyr agored yn dasg gymhleth. Ar wefan YPO50 (2023), nodir bod diffyg gwagleoedd tu allan yn gallu achosi problemau wrth chwarae yn yr awyr agored ac yn sôn am gostau mawr i ehangu'r gwagleoedd chwarae yma.

Ar wefan 'The voice of early childhood' (2023), trafodir ymchwil a wnaeth ganolbwyntio ar effaith chwarae awyr agored ar blant ifanc. Canlynad yr ymchwil oedd bod plant a dreuliodd mwy o amser yn yr awyr agored yn ystod eu plentynod yn dangos llai o arwyddion diffyg canolbwyntiad a chynnydd mewn bywiogrwydd wrth ddysgu. Maent hefyd yn nodi bod y plant yn cyflawni tasgau'n fwy effeithiol ac llai aflonyddgar o fewn dosbarth.

Yn 2002, fe wnaeth llywodraeth Cymru gyhoeddi ei pholisi chwarae, sef y polisi chwarae cyntaf yn y byd. Cafodd y polisi ei sefydlu ar sail bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae, mae hefyd yn dangos ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau bod plant yn derbyn yr hyn sy'n bwysig ar gyfer eu datblygiad (Chwarae Cymru, 2023). O fewn fframwaith chwarae cwricwlwm Cymru i blant rhwng 3 a 7 oed, nodir dylai'r cyfnod sylfaen hybu annibyniaeth, gyda phwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd dysgu (hwb.gov 2023).

Wrth gymharu â chyferbynu'r dystiolaeth, mae'n ymddangos bod llawer o fuddion i blant wrth iddynt gael mynediad i chwarae yn yr awyr agored megis ffitrwydd corfforol, teimlad o ryddid, lleihau straen a phryder, cryfhau system imiwnedd a chefnogi sgiliau emosiynol a chymdeithasol (eyealliance.org, 2023). Mae'n dod i'r amlwg bod athrawon yn credu'n gryf ym mhwsigrwydd chwarae awyr agored, ond ar y llaw arall mae hygyrchedd chwarae agored yn cael ei effeithio ar adegau gan ffactorau allan o'u rheolaeth. Mae'n dod i'r amlwg bod tywydd yn broblem mawr ledled y byd wrth gael mynediad chwarae awyr agored ac hefyd mae llawer o athrawon yn pryderi am ddiogelwch eu disgyblion. Nodir hefyd bod diffyg offer a gwagleoedd yn gallu bod yn broblem mawr i athrawon wrth iddynt geisio darparu sesiynau awyr agored.

Mae pwyntiau positif am chwarae awyr agored yn cael eu nodi gan athrawon ac arbenigwyr sy'n credu'n gryf yn ei bwysigrwydd a'i hygyrchedd. Ar y llaw arall mae'r pwyntiau negyddol gan athrawon yn nodi teimlad rhwystredig nad oes ganddyn nhw'r adnoddau a gwagleoedd i sicrhau diogelwch a chyfleoedd cyson i blant chwarae yn yr awyr agored.

Cynhalwyd yr ymchwiliad yma i asesu effeithiau hygyrchedd chwarae awyr agored ar blant ifanc, gan fod mwy o bwyslais yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ei bwysigrwydd a'i hygyrchedd. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisi a fframweithiau chwarae awyr agored, mae'r papur hwn yn ymchwilio i'r effeithiau ac hefyd y rhwystrau gall blant ifanc ac athrawon wynebu. Bydd y papur hefyd yn ystyried beth sydd angen ar ysgolion i sicrhau hygyrchedd gwell ar gyfer chwarae awyr agored ar bob adeg.

Ystyriaethau Methodolegol

Y sampl cyntaf a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad yw rhieni plant ym mlwyddyn dau o fewn ysgol Gymraeg yn ardal gorllewinol Abertawe. Mae'r dosbarth yn cynnwys 30 o blant ac felly bydd yr holiadur yn cael ei derbyn gan 30 rhiant/gofalwr. Yn ôl Swansea.gov (2022) mae'r ardal yn un sy'n cynnwys canran uchel o bobl yn y dosbarth gweithiol, ac un o'r ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchaf yn Abertawe. Bydd y sampl yn cynnwys un oedolyn o bob teulu a'r oedolion hynny rhwng oeddrannau 25-40. Dewiswyd y categori oedran yma i sicrhau fod y sampl yn derbyn mewnbwn o bob rhiant yn y dosbarth.

Yr ail sampl a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad yw athrawon y cyfnod sylfaen yn yr un ysgol. Bydd oedranau'r staff yn y sampl yma'n amrywio o'r ifanca sef 24 i'r hynaf sef 50. Mae'r athrawon i gyd yn ceisio defnyddio'r awyr agored fel modd i addysgu. Dewiswyd y samplau yma ar gyfer yr archwiliad oherwydd eu bod yn cynnwys barn o berspectifau gwahanol, sef athrawon a rhieni. Mae'r samplau hefyd yn ceisio targedi y teuluoedd/athrawon y mae hygyrchedd chwarae awyr agored yn berthnasol iddynt. Bydd y samplau yma'n darparu data mwy penodol gan amrywiaeth o gyfranogwyr.

Mae'r sampl cyntaf yn cynnwys rhieni/gofalwyr o ddosbarth blwyddyn dau sy'n cynnwys 30 o blant gyda'r ymchwiliad yn berthnasol iddynt oherwydd bod pwysigrwydd chwarae awyr agored yn cael ei gydnabod drwy bolisi chwarae Cymru (2002) lle nodi bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae. Nid yw'r sampl yma ar hap gan fod dosbarth penodol wedi ei ddewis a mae gan bob rhiant gyfle i ymgysylltu. Nid yw'r archwiliad yn ceisio rheoli faint o'r rhieni sy'n ymateb i'r holiadur. Dewiswyd cynnwys rhieni pawb yn y dosbarth yn y sampl i gyfateb â'r niferoedd er mwyn rhoi cyfle i bob teulu gael cyfle i ateb yr holiadur. Nid oes gennym wybodaeth am rywedd, ethnigrwydd, abledl/anabledl y sampl. Y risg yn y sampl yma yw gall fod yna duedd sy'n dibynnu ar sefyllfa teulu, e.e. os yw rhiant yn athro yn yr ysgol ac yn felly gyda barn yn seiliedig ar farn yr ysgol.

Mae'r ail sampl yn cynnwys athrawon y cyfnod sylfaen yn yr un ysgol. Dewiswyd athrawon y cyfnod sylfaen fel y sampl gan fod pwyslais mawr ar chwarae awyr agored yn y blynyddoedd cynnar yn ddiweddar. Nid yw'r sampl yma ar hap ond mae wedi cael ei ddewis i allu cymharu a chyferbynu ag atebion y sampl cyntaf. Fel hyn mae'r archwiliad yn derbyn barn o safbwyntiau gwahanol ar hygyrchedd chwarae awyr agored. Mae'r sampl yma hefyd yn cynnwys risg o duedd unochrog gan fod yr athrawon efallai ddim am fod yn feirniadol am yr ysgol maent yn gweithio ynddi.

Mae'r dull cyntaf, sef y sampl rhieni, yn cynnwys holiadur. Bydd yr holiadur yma'n cael ei rhannu drwy e-bost neu ar bapur gyda phob rhiant/gofalwr. Mae'r holiadur yn un ansoddol gan ei fod yn seiliedig ar farn y rhieni. Hefyd gall fod yn feintiol gan fod cwestiynnau yn yr holiadur yn cynnwys ticio bocs er mwyn mesur yn feintiol. Mae'n cynnwys dulliau cymysg felly. Ar y naill law, bydd yr holiadur yn cynnwys rhai cwestiynnau pen agored lle fydd barn y rhieni yn cael ei ofyn. Ar y llaw arall, fe fydd hefyd yn cynnwys cwestiynnau amlddeus sy'n gaeedig. Mae'r holiadur yma yn un strwythuredig gan fod rhai cwestiynnau'n cynnwys atebion penodol. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynnau sy'n rhoi lle i roi sylwadau.

Y dull a ddewiswyd ar gyfer sampl dau yw cyfweiliadau. Gan fod y sampl yn un bach sydd ond yn cynnwys 8 o athrawon bydd yr archwiliad yn cyfweld â'r aelodau staff yn uniongyrchol. Bydd y cyfweiliad yn ansoddol gan fod y cwestiynnau i gyd yn agored a fydd yr atebion yn seiliedig ar farn athrawon am hygyrchedd chwarae awyr agored. Mae cynnal y cyfweiliad yn galluogi'r ymchwiliad gasglu mwy o ddata ac yn rhoi cyfle i deilwra'r atebion yn y cyfweiliad neu gofyn cwestiynnau ychwanegol.

Ar gyfer y sampl cyntaf, sef sampl y rhieni, dewiswyd dullholiadur. Dewisiwyd hyn oherwydd bod rhieni yn ymwybodol o'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr ysgol. Disgwylir bydd gan rieni/gofalwyr farn pan maent yn cael eu cwestiynnu am y ddarpariaeth mae eu plant yn derbyn. Roedd yn teimlo'n bwysig dderbyn eu barn yn yr archwiliad am hygyrchedd chwarae awyr agored. Dewiswyd holiadur fel dull ymchwil gan ei fod yn cynnig modd cyflym a rhad i gasglu gwybodaeth gynhwysfawr o'r sampl. Roedd cynnwys cwestiynnau â dulliau cymysg yn yr archwiliad yn bwysig oherwydd ei fod yn annog rhieni/gofalwyr i ymhelaethu aar gwestiynnau ac i fod yn fwy agored wrth ateb cwestiynnau.

Ar gyfer yr ail sampl, sef yr athrawon, dewiswyd cyfweld fel dull ymchwil. Drwy gynnal cyfweiliad yn yr archwiliad, gobeithir y bydd athrawon yn agored am yr hyn maent yn teimlo ac yn barod i ddarparu mwy o ddyfnder yn eu hatebion. Mae cyfweiliad yn ddull sy'n hybu atebion agored i gwestiynnau ac fe fydd hyn yn bwysig wrth analeiddio'r cyfweiliadau a dewis y gwybodaeth briodol sydd angen. Yn bennaf, y rheswm ddewiswyd cyfweiliad fel dull yw ei fod yn cynnig modd arbennig o gasglu gwybodaeth eang o'r athrawon sy'n gwybod beth sydd ar gael yn eu hysgol.

Un peth a all fod yn broblem yn ystod yr archwiliad hwn yw natur yr adborth o'r ddau samol yn ystod yr holiadur a chyfweiliad. Yn y cyfweiliad gydag athrawon e.e., gall rai fod yn anfodlon i ateb rai cwestiynnau oherwydd nad ydynt eisiau rhoi adborth negyddol am yr ysgol. Yn yr un modd, gall rieni/gofalwyr sy'n ateb cwestiynnau yr holiaduron ddangos tuedd negyddol/positif i'r ysgol ar sail profiadau blaenorol (ProProfs, 2024). Gall ffactorau megis yr effeithiau Hawthorne/Halo gael eu hystyried. Effaith Halo yw pan fydd person yn selio'i barn ar rywbeth ar sail ei argraff cyntaf, felly all fod yn un bositif neu negyddol (Scribbr, 2022). Yr effaith Hawthorne yw pan fydd unigolyn yn addasu ei ymddygiad gan ei fod yn gwybod bydd ei atebion yn cael ei arsylwi (Scribbr, n.d). Un peth arall sy'n effeithio ar atebion pobl wrth ateb cwestiynnau yw os yw'r cwestiwn yn un pen agored neu'n gaeedig. Wrth ofyn cwestiynnau pen agored gallwch dderbyn atebion estynedig ond mae cwestiynnau caeedig dim ond yn cynnig ambell ddewis i ateb. Gall hyn fod yn broblem oherwydd y natur anghyson wrth ateb y cwestiynnau (Pew research center, 2024). Yn ystod y cyfweiliad gall fod cyfyngiadau megis amser, tuedd unochrog, tuedd dymuniolrwydd cymdeithasol, cyfwelwr neu hyd yn oed parodrwydd y cyfranogwr i rannu gwybodaeth sensitif (Study smarter UK, 2020).

Ni ddewiswyd grwp ffocws bach fel dull ymchwil oherwydd roedd grwp dosbarth yn bodoli eisioes felly penderfynwyd gweithio gyda'r grwp yna, sef y dosbarth blwyddyn 2. Mae cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yn medru bod yn heriol o fewn sesiynau grwp ffocws gan fod eraill yn arsylwi pan mae unigolyn yn siarad (Springer, 2019). Mae angen safonwr effeithiol ac mae safon y sgwrs yn dibynnu ar effeithiolrwydd y safonwr (Springer, 2019). Ni ddewiswyd dull eilradd o gasglu data oherwydd gan nad oedd yr ymchwilyr wedi casglu'r data, nid oes ganddynt reolaeth dros beth mae'r ffynhonnell yn cynnwys. Hefyd gall ddull eilradd o gasglu data gyfyngu dehongliadau neu, newid y cwestiynnau gwreiddiol roedd yr ymchwil yn ceisio ateb (ethics.ucl, n.d).

Mae'r ymchwil yn defnyddio dulliau ansoddol a meintiol o gasglu data. Y budd mwyaf o ddefnyddio dulliau cymysg yw ei fod yn cydbwysu y cyfyngiadau o'r ddau dull. Mae'r dull yma o gasglu data yn gwneud iawn am wendidau'r llall. Hefyd, mae dulliau cymysg yn galluogi'r ymchwilwyr i ymwneud â ystod eang o gwestiynnau ymchwil. Ma'r dull yma'n helpu'r ymchwilwyr i dderbyn tystiolaeth cryf i gydweithio â'i gasgladau (Delvetool, 2022). Yn ôl Gov.Uk (2020) mae dulliau ymchwil cymysg yn fodd gwyb o gasglu data gan ei fod yn rhoi llawer mwy o ddyfnder i atebion sy'n cael eu ddewis. Maent hefyd yn nodi ei fod yn cynnig mwy o hyder yn eich casgliadau.

Yn ôl llyfr, 'The use of triangulation during research' (2014), maent yn disgrifio triongli fel y defnydd o nifer o ddulliau neu ffynhonnellau data gwahanol o fewn ymchwil, i ddatblygu dealltwriaeth cynhwysfawr o ffenomena. Mae yna bedwar math o driongli sef triongli ymchwilwyr, triongliant dull, triongliant theori a triongli ffynhonnell data. Yn ôl wefan Scribbr (2022) mae triongli yn lleihau tuedd sy'n dod drwy ddefnyddio methodau, theori neu ymchwilwyr annibynol. Mae hefyd yn gwella dilysrwydd drwy ymchwilio i'r un pwnc â gwahanol offer. Maent yn nodi ei fod yn sefydlu credadwyaeth drwy rhoi darlun cyflawn o broblem ymchwil. Yn ystod yr ymchwiliad nodir bod triongli'n bwysig gan ei fod yn cynnig llawer o wahanol ffynonellau a'r amryw ffynonellau yn galluogi'r ymchwiliad gasglu gwybodaeth ddwys am y pwnc. Mae triongli'n bwysig pan yn ymchwilio gan ei fod yn sicrhau dilysrwydd. Yn ôl Academia Letters (2021), mae triongli yn sicrhau dilysrwydd drwy gael gwared o duedd sy'n gallu atal ymchwilwyr rhag gyrraedd eu canlyniad. Hefyd nodir bod dilysrwydd yn bwysig i sicrhau bod y casgliadau a ddarganfyddwyd yn ystod yr ymchwiliad yn cael eu defnyddio'n gywir. Mae hyn yn bwysig i'r ymchwilwyr oherwydd ei fod yn arwain yr ymchwilwyr tuag at y canlyniad mwy tebygol i fod yn gywir.

Ystyriaethau moesegol

Yn ôl Oxford University (2021), caniatâd gan gyfranogwyr yw un o'r egwyddorion pwysicaf pan yn ystyried moeseg yn ystod ymchwil. Y bwriad yw galluogi pobl ymuno ag ymchwil yn wirfoddol ar ôl derbyn y gwybodaeth priodol sydd eu hangen, ac hefyd eu bod yn rhoi caniatâd cyn ymuno. Nodir dylai caniatâd cael ei dderbyn cyn i berson ymuno â'r ymchwiliad, ac ni ddylai fod unrhyw ddylanwad ar gyfranogwyr cyn iddynt roi caniatâd. Yr isafbwynt o ofynion ar gyfer caniatâd yw bod y cyfranogwr yn gwybod beth yw'r ymchwiliad a beth maent yn cydsynio gydag ef. Mae GIC yn fudiad sydd yn gorfod derbyn caniatâd gan filoedd ar filoedd o bobl yn ddyddiol. Ar ei gwefan (NHS 2024) maent yn nodi'r mathau gwahanol o ganiatâd allwch dderbyn. Maent yn cynnwys caniatâd geiriol ac ysgrifenedig. Byddai caniatâd geiriol yma'n ddefnyddiol ar gyfer y cyfweiliad â'r athrawon a chaniatâd ysgrifenedig yn ddefnyddiol ar gyfer y rhieni/gofalwyr yng nghyd destun yr archwiliad yma. Ar wefan DoClime (n.d) y broblem gyda chaniatâd geiriol yw, heb dystiolaeth o'r cytundeb yma, gall arwain at anghydfod a chamddealtwriaeth yn y dyfodol. Modd gwahanol o dderbyn caniatâd yw caniatâd ysgrifenedig, dyma'r ddull mwyaf tebygol ar gyfer sampl un yn yr archwiliad yma sef y rhieni. Mae'n bosib ddanfôn llythyr adref a gofyn amdano yn ôl â llofnod. Dull caniatâd a fyddai'n debygol o ddefnyddio'n sampl un yw drwy e-bost sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ymchwiliad (NHS 2024). Yn ôl Queen Mary University of London (2023) pan yn derbyn caniatâd mae'n bwysig adnabod y risgiau a sut i'w lleihau. I leihau'r risg gallwch ddarparu holl wybodaeth yr ymchwiliad yn ystod y broses caniatâd i'r cyfranogwr, neu allwch ddatblygu cynllun monitro diogelwch a derbyn adborth o'r cyfranogwr. Ar wefan National Library of Medicine (2013) maent yn nodi'r grwpiau o bobl dylid ystyried pan yn derbyn caniatâd. Mae'r rhestr yn cynnwys pobl o grwpiau sy'n agored i niwed, gall hyn achosi problem yn y ddwy sampl gan fod athrawon a rhieni yn gallu bod yn agored i niwed gan bobl yn y gweithle neu adref.

Pan yn cynnal archwiliad mae angen i'r ymchwiliwyr fod yn agored pan yn cynnal eu hymchwiliad. Yn ôl cyfrol National Institutes of Health (2010) ,mae didwylledd yn golygu nid dim ond rhannu gwybodaeth ond hefyd rhannu'r dulliau sydd angen i ddeall megis, deall yr ymchwiliad, dilysu, cymhwyso gwybodaeth megis data a chanlyniadau. Ar wefan University of Manchester (2024) mae tryloywder ymchwiliad yn allweddol i fod yn ddidwylledd yn ystod ymchwiliad. Mae hefyd yn ddull moesol wrth ymchwilio gan ei fod yn gwella cyfanrwydd yr ymchwil a cynyddu gwerth y gwybodaeth. Ar wefan Frontiers mae erthygl sy'n trafod didwylledd (2022) yn nodi gall fod pryderon moesegol megis mynediad i ddata sensitif, cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, preifatrwydd a fforddiadwyedd.

Ar wefan London Global University (2020), nodir beth ddylai taflen wybodaeth gynnwys. Dylai gynnwys esboniad fod cyfranogiad yn wirfoddol a bod hawl gan gyfranogwr i dynnu allan ar unrhyw adeg. Hefyd nodwyd ei fod yn bwysig i danlinellu'r natur a nodau'r ymchwil a beth mae'r cyfranogiad yn ei olygu sef pethau megis pryd, beth, pwy a ble? Mae'n bwysig i amlygu'r risgiau, anghyfleustraau ac anghysuron all gyflwyno'u hun o ganlyniad i'r cyfranogiad. Nodwyd y peth pwysicaf i drafod yn y taflen wybodaeth yw sut bydd y cyfranogwyr yn gallu aros yn anhysbus a beth bydd y proses dogelu.

Ar wefan University of Oxford (2021), caniatâd gwybodus gwirfoddol yw pan mae person yn gallu ymuno â ymchwiliad yn rhydd gyda gwybodaeth am yr ymchwiliad a caniatâd cyn ymuno. Mae Gov.uk (2018) yn nodi pan yn derbyn caniatâd gwybodus gwirfoddol dylai'r cyfranogwr ddeall am beth maent yn cofrestru er mwyn gwneud yr ymchwil yn fwy effeithiol, sicrhau bod yr ymchwil yn foesol a chydymffurfio â'r cyfreithiau amddiffyn data. Ar wefan Hhs.Gov (2024), nodir bod caniatâd gwybodus yn broses sy'n sicrhau bod gwybodaeth beirniadol wedi'i datgelu yn llwyr, a bod cyfranogwyr yn deall yr ymchwil fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.

Ar wefan Kirklees.Gov (2024), nodir, i sicrhau diogelwch yn ystod archwiliad, ei fod yn bwysig i gynllunio proses o flaen llaw. Dywedir ei fod yn bwysig i feddwl am broblemau diogelwch pan yn penderfynu'r modd o gasglu data. Fel esiampl, ystyried os yw cyfweiliad cartref yn angenrheidiol ar gyfer yr ymchwil neu all y cyfweiliadau yma ddigwydd yn yr ysgol â'r athrawon. Ar wefan Virginia.Edu (2024), dywedir bod cyfrinachedd yn gallu cael ei sicrhau ar y cyfan drwy ddefnyddio cronfeydd data ac arferion storio da. Dylai'r archwiliad sicrhau fod pob aelod o'r tîm ymchwilio wedi cael yr ymarfer priodol ar gyfer y problemau yma, a deall ni ddylid drafod y cyfranogwyr tu allan i gyd-destun yr ymchwiliad. Nodir dylai gwybodaeth am gyfranogwyr gael ei chyfyngu i ddefnydd yr ymchwiliwyr a phwy bynnag sydd angen gwybod y wybodaeth sensitif. Hefyd nodir dylid gofalu rhag datgelu'r wybodaeth sensitif yma. Mae hyn yn amddiffyn cyfranogwyr yr archwiliad rhag niwed seicolegol, cymdeithasol a chyfreithiol. Yn yr ymchwiliad yma bydd yr holiadur a'r cyfweiliadau'n gyfrinachol gan eu bod yn foesol gywir i wneud hyn er mwyn amddiffyn y cyfranogwyr. Mae gwefan Endicott.edu (2024) yn diffinio anhysbysrwydd fel anhysbysrwydd y bobl y derbyniwyd y data oddi wrthyn nhw, heb adnabod yr unigolyn a wnaeth ateb y cwestiynnau. Ni ddylai archwiliad gasglu gwybodaeth bersonol unigolyn heb law ei fod yn hanfodol ar gyfer yr ymchwil. Hefyd, nid yw anhysbysrwydd yn gallu fod yn sicr os mae gwybodaeth personol canfyddadwy yn cael ei gasglu.

Fel nodwyd yn flaenorol am ddiogelwch cyfranogwr, mae Virginia.edu (2024) yn dweud dylai mynediad i wybodaeth unigol y cyfranogwyr gael ei gyfyngu i ddefnydd yr ymchwiliwyr yn unig. Yn yr ymchwil mae anhysbysrwydd yn hanfodol i sicrhau diogelwch yr athrawon yn yr ysgol ac hefyd y rhieni rhag niwed cymdeithasol gan eraill. Ar wefan University of Sunderland (2024), dywedir dylai risgiau potensial cael eu trafod yn agored yn y broses ganiatâd. Bydd hyn yn cynnwys holi cyfranogwyr am unrhyw ffactorau all greu risg yn ystod y broses, megis rhai cymdeithasol neu seicolegol. Nodir y dylai cyfranogwyr dderbyn gwybodaeth am sut i osgoi unrhyw risgiau yn ystod y broses. Yn ystod yr ymchwil, bydd y

llythyr o ganiatâd i'r rhieni/gofalwyr yn cynnwys yr holl wybodaeth am y risgiau posibl. Bydd yr athrawon sy'n cymryd rhan yn y cyfweiliad yn derbyn esboniad lafar am y risgiau.

Yn ôl gwefan Cayuse.com (n.d), annogir ymchwilwyr i fod yn rhagweithiol. Mae rheolaeth risg rhagweithiol yn helpu datrys problemau cyn iddynt ddatblygu. Nodwyd dylai bob ymchwiliad rhagweld problemau potensial ac i ddatblygu cynlluniau ac i ddogfenni popeth yn ystod yr ymchwiliad. Yn ystod yr archwiliad, bydd yn ddefnyddiol i gynnal sesiynau hyfforddiant i'r ymchwilwyr ar sut i ddiogeli'u hunain yn ystod yr ymchwiliad.

Ar wefan University of Essex (2023), nodir y risgiau potensial i brifysgolion yn ystod ymchwil. Un o'r risgiau yma yw niwed ariannol drwy ddatguddiadau niweidiol. Hefyd os nad yw'r broses yn un gofalus gall niweidio enw da y brifysgol. Maent yn nodi ei fod yn holl bwysig i wneud asesiad risg cyn dechrau unrhyw archwiliad i sicrhau diogelwch pob cyfranogwr. Yn ystod yr ymchwiliad bydd asesiadau risg cyson yn digwydd i sicrhau cywirdeb a diogelwch.

Ar wefan Gov.Uk(2024) nodir yr angen i gadw record o bob peth yn ystod yr ymchwiliad, megis ffurfleni caniatâd. Dylai pob person sy'n cynnal archwiliad storio a chadw'r data yma yn yr un lle ag unrhyw ddata personol arall a gasglwyd yn ystod yr ymchwil. Ar wefan University of Oxford (2024), nodir polisïau megis ymchwilwyr yn dangos gonestrwydd, proffesiynldeb a thegwch. Nodir polisi i gefnogi pawb yn yr ymchwil yn y modd mwyaf moesol posibl.

Ar wefan lubenda (2021), trafodir pwysigrwydd dilyn rheolau GDPR. Pan yn casglu data mae angen sicrhau eich bod yn casglu'r isafswm lleiaf o ddata sydd eu hangen. Mae'n bwysig cofio nid oes hawl gadw data personol unigolyn am gyfnod estynedig o amser pan yn cynnal archwiliad.

Mae erthygl sy'n trafod pwysigrwydd casglu data (2021) yn dweud heb gasglu data'n gywir nid yw'n bosib i wneud yr archwiliad yn gywir. Nodir bod casglu a storio data'n gywir yn hanfodol i gyrraedd targedau ac i sicrhau diogelwch a chywirdeb drwy gydol y broses.

Mae gan gyfranogwyr hawliau yn ystod y broses archwiliad hefyd. Maent yn gallu dewis i beidio bod yn rhan o'r ymchwiliad ar unrhyw adeg, gael amser i ddarllen y daflen wybodaeth ac holi i dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol am yr archwiliad. Maent yn gallu gofyn unrhyw gwestiynnau yn ystod yr archwiliad ac yn gallu hawlio unrhyw wybodaeth mae'r ymchwilwyr wedi nodi (Northwestern.edu, 2024). Ar wefan Gov.Uk (2018), trafodir deddf GDPR 2018. Mae'r ddeddf yma'n golygu bod pawb sy'n gyfrifol am ddefnyddio data personol gorfod dilyn rheolau o'r enw 'Data Protection Principles'. Mae hyn yn golygu dylai data personol cael ei ddefnyddio mewn ffordd deg, cyfreithlon a thryloyw. Yn yr ymchwiliad yma bydd angen sicrhau bod pob ymchiliwr yn derbyn yr ymarfer mwyaf addysgiadol ar sut i sicrhau ei fod yn gwneud pethau'n gywir ac yn amddiffyn y cyfranogwyr. I sicrhau bydd yr archwiliad yn dilyn y rheolau cywir bydd yn dilyn y ddeddf Diogelu Data 2018, mae'r ddeddf yma'n rheoli sut mae cyrff yn defnyddio'ch gwybodaeth personol.

Reference list

Bans-Akutey, A., Tiimub, B.M. (2021). Triangulation in Research. *Academia Letters*, Article 3392. <https://doi.org/10.20935/AL3392>

Carter, N., Bryant-Lukosius, D., DiCenso, A., Blythe, J., & Neville, A. J. (2014). The use of triangulation in qualitative research. *Oncology nursing forum*, 41(5), 545–547. <https://doi.org/10.1188/14.ONF.545-547>

Cayuse.com (n.d) *5 ways to reduce risk in research administration*. Ar gael: <https://cayuse.com/blog/5-ways-to-reduce-risk-in-research-administration/#:~:text=Be%20proactive.,all%20aspects%20of%20research%20administration>. (Defnyddio 19 Mai 2024)

Chwarae Cymru (2023) *Current play policy in Wales*. Ar gael: <https://play.wales/play-policy-legislation/current-policies/> (Defnyddio 6 Mai 2024)
Delvetool.com (2022) *Qualitative and quantitative mixed methods*. Ar gael: <https://delvetool.com/blog/mixedmethods/#:~:text=The%20main%20benefit%20of%20using,t he%20weakness%20of%20the%20other>. (Defnyddio 15 Mai 2024)

Doclime (n.d) *Cons of verbal agreements*. Ar gael: <https://doclime.com/blog/verbal-agreement-vs-consent-form-rental-agreement/#:~:text=Cons%20of%20Verbal%20Agreements,- Lack%20of%20Documentation&text=Without%20a%20written%20record%2C%20it,compared%20to%20written%20consent%20forms>. (Defnyddio 18 Mai 2024)

Endicott.edu (2024) *What is the difference between anonymity and confidentiality*. Ar gael: <https://www.endicott.edu/about/research-at-endicott/institutional-review-board-irb/what-is-the-difference-between-anonymity-and-confidentiality/#:~:text=Remove%20face%20sheets%20containing%20identifiers,within%20locked%20locations%3B%20and%20For> (Defnyddio 18 Mai 2024)

Ethics.grad.ucl (n.d) *Secondary data analysis*. Ar gael: <https://ethics.grad.ucl.ac.uk/forms/Secondary-data-analysis-file-note.pdf> (Defnyddio 15 Mai 2024)

Forrest School association (2024) *What is forrest school*. Ar gael: <https://forestschoolassociation.org/what-is-forest-school/> (Defnyddio 5 Mai 2024)

Frontiers (2022) *Fostering openness in open science: An ethical discussion of risks and benefits*. Ar gael: <https://www.frontiersin.org/articles/10.3389/fpos.2022.930574/full#> (Defnyddio 18 Mai 2024)

Gabriela Bento, Gisela Dias (2017) *The importance of outdoor play for young children's healthy development*, Porto Biomedical Journal, Volume 2, Issue 5, Pages 157-160. Ar gael: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2444866416301234> (Defnyddio 5 Mai 2024)

Gov.uk (2018) *Data Protection*. Ar gael: <https://www.gov.uk/data-protection/#:~:text=The%20Data%20Protection%20Act%202018%20is%20the%20UK's%20i mplementation%20of,used%20fairly%2C%20lawfully%20and%20transparently> (Defnyddio 19 Mai 2024)

GOV.UK (2018) *Getting informed consent for user research*. Ar gael: <https://www.gov.uk/service-manual/user-research/getting-users-consent-for-research> (Defnyddio 18 Mai 2024)

Gov.uk (2020) *Mixed methods study*. Ar gael: <https://www.gov.uk/guidance/mixed-methods-study#:~:text=Benefits%20include%3A,results%20than%20each%20individual%20method> (Defnyddio 15 Mai 2024)

Gov.uk (2024) *Collecting personal data during research*. Ar gael: <https://user-research.education.gov.uk/guidance/how-to-manage-participant-personal-data/collecting-data-during-your-research#:~:text=You%20must%20ask%20every%20participant,a%20record%20of%20this%20consent.&text=Consent%20forms%20contain%20personal%20data,data%20generated%20in%20your%20research>. (Defnyddio 19 Mai 2024)

HHS.Gov (2024) *Informed consent FAQ's*. Ar gael: <https://www.hhs.gov/ohrp/regulations-and-policy/guidance/faq/informed-consent/index.html#:~:text=The%20informed%20consent%20process%20should%20ensure%20that%20all%20critical%20information,they%20can%20make%20informed%20choices>. (Defnyddio 18 Mai 2024)

Hwb.gov (2023) *Outdoor learning handbook*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/storage/fcb8539c-9be7-4883-8542-35d7b54b56f2/foundation-phase-outdoor-learning-handbook.pdf> (Defnyddio 6 Mai 2024)

Ibuenda.com (2021) *GDPR data storage*. Ar gael: <https://www.iubenda.com/en/help/122437-gdpr-data-storage-what-businesses-need-to-know> (Defnyddio 19 Mai 2024)

Ji Hyun Oh (2023) *The Challenges of Supporting Young Children's Outdoor Play in Early Childhood Education and Care Settings*, Volume 18, Issue 2. Ar gael: <https://pdxscholar.library.pdx.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1367&context=nwite#:~:text=Health%20and%20safety%20concerns.,children's%20outdoor%20play%20at%20school>. (Defnyddio 5 Mai 2024)

Kirkless.gov (2024) *Researcher safety*. Ar gael: <https://www.kirklees.gov.uk/Involve/document/ResearcherSafety.pdf> (Defnyddio 18 Mai 2024)

London Global University (2020) *Guidance on completing a participant information sheet*. Ar gael: <https://ethics.grad.ucl.ac.uk/forms/model-participant-information-sheet-and-guidance.pdf> (Defnyddio 18 Mai 2024)

Mazhar.S, Anjum.R, Anwar.A, Khan.A. (2021) *Methods of data collection: A fundamental tool of research*. Vol 10, Issue 1, P 6-10. Ar gael: <http://medicaljournalshouse.com/index.php/ADR-CommunityHealth/article/view/631/496> (Defnyddio 19 Mai 2024)

NHS (2024) *Consent to treatment*. Ar gael: <https://www.nhs.uk/conditions/consent-to-treatment/> (Defnyddio 18 Mai 2024)

Nijhawan, L. P., Janodia, M. D., Muddukrishna, B. S., Bhat, K. M., Bairy, K. L., Udupa, N., & Musmade, P. B. (2013). *Informed consent: Issues and challenges*. *Journal of advanced*

pharmaceutical technology & research, 4(3), 134–140. <https://doi.org/10.4103/2231-4040.116779> (Defnyddio 18 Mai 2024)

Northwestern.edu (2024) *Participant rights*. Ar gael: <https://irb.northwestern.edu/for-participants/participant-rights.html#:~:text=Every%20research%20participant%20has%20the%20following%20rights%3A&text=To%20choose%20to%20stop%20being,you%20have%20any%20more%20questions>. (Defnyddio 19 Mai 2024)

Oxford University (2021) *Informed Consent*. Ar gael: <https://researchsupport.admin.ox.ac.uk/governance/ethics/resources/consent#:~:text=Consent%20should%20be%20obtained%20before,what%20they%20are%20consenting%20to>. (Defnyddio 18 Mai 2024)

Pew research Center (2024) *Writing survey questions*. Ar gael: <https://www.pewresearch.org/writing-survey-questions/#:~:text=One%20of%20the%20most%20significant,a%20list%20of%20answer%20choices>. (Defnyddio 12 Mai 2024)

Prins. J, Wilt. F, Veen. C, Hovinga, D. (2022) *Nature play in early childhood education: A systematic review and meta ethnography of qualitative research*, Volume 13. Ar gael: <https://www.frontiersin.org/journals/psychology/articles/10.3389/fpsyg.2022.995164/full> (Defnyddio 5 Mai 2024)

ProProfs (2024) *16 Advantages & Disadvantages of Questionnaires*. Ar gael: <https://www.proprofsurvey.com/blog/advantages-disadvantages-of-questionnaires/> (Defnyddio 12 Mai 2024)

Queen Mary University of London (2023) *Risk considerations*. Ar gael: <https://www.jrmo.org.uk/performing-research/conducting-research-with-human-participants-outside-the-nhs/risk-considerations/#:~:text=You%20must%20identify%20the%20risks,safety%20monitoring%20plans%20and%20debriefing>. (Defnyddio 18 Mai 2024)

Resnik D. B. (2006). Openness versus Secrecy in Scientific Research Abstract. *Episteme* (Edinburgh), 2(3), 135–147. <https://doi.org/10.3366/epi.2005.2.3.135> (Defnyddio 18 Mai 2024)

Scribbr (2022) *Triangulation in research*. Ar gael: <https://www.scribbr.co.uk/research-methods/triangulation-in-research/#:~:text=Triangulation%20can%20help%3A,picture%20of%20the%20research%20problem> (Defnyddio 17 Mai 2024)

Scribbr (2022) *What Is the Halo Effect? | Definition & Examples*. Ar gael: <https://www.scribbr.com/research-bias/halo-effect/#:~:text=The%20halo%20effect%20occurs%20when,colored%20by%20this%20first%20impression>. (Defnyddio 12 Mai 2024)

Scribbr (n.d) *What Is the Hawthorne Effect? | Definition & Examples*. Ar gael: <https://www.scribbr.com/research-bias/hawthorne-effect/#:~:text=The%20Hawthorne%20effect%20occurs%20when,they%20may%20change%20their%20behavior>. (Defnyddio 12 Mai 2024)

Springer.com (2019) *Focus group methodology*. Ar gael: <https://link.springer.com/article/10.1007/s11135-019-00914-5#:~:text=Confidentiality%20and%20anonymity%20are%20potentially,this%20problem%20becomes%20more%20acute>. (Defnyddio 15 Mai 2024)

Study Smarter UK (2020) *Interview in research*. Ar gael: <https://www.studysmarter.co.uk/explanations/marketing/marketing-information->

[management/interview-in-research/#:~:text=Disadvantages%20of%20Interviews%20in%20Research,-Although%20interviews%20can&text=Interviews%20can%20be%20time%2Dconsuming%20and%20resource%2Dintensive%20and%20may,share%20their%20experiences%20or%20perspectives.](#) (Defnyddio 12 Mai 2024)

Sunderland.ac.uk (2024) *Participant and researcher safety and well-being*. Ar gael: <https://www.sunderland.ac.uk/more/research/research-governance-integrity/ethics/apply-ethical-review/participant-and-researcher-safety-and-well-being/> (Defnyddio 19 Mai 2024)

Swansea.Gov (2022) *Gorseinon Ward Profile*. Ar gael: https://www.google.com/url?sa=i&url=https%3A%2F%2Fwww.swansea.gov.uk%2Fmedia%2F3157%2FGorseinon-ward-profile%2Fpdf%2FGorseinon_ward_profile.pdf%3Fm%3D1632302507200&psig=AOvVaw31KCEdiCatdb2gsrqbTpT4&ust=1715281636200000&source=images&cd=vfe&opi=89978449&ved=0CAUQn5wMahcKEwjQrMKW4P6FAxUAAAAAHQAAAAAQBw (Defnyddio 8 Mai 2024)

The voice of early childhood (2023) *The science behind outdoor play*. Ar gael: <https://thevoiceofearlychildhood.com/the-science-behind-outdoor-play-part-1/#:~:text=Children%20who%20spent%20more%20time,less%20disruptive%20in%20subsequent%20indoor> (Defnyddio 6 Mai 2024)

University of Manchester (2024) *Research Transparency*. Ar gael: <https://www.openresearch.manchester.ac.uk/resources/open-research-principles/research-transparency/#:~:text=Research%20transparency%20is%20a%20key,value%20and%20impact%20of%20research>. (Defnyddio 18 Mai 2024)

Virginia.edu (2024) *Protecting confidentiality*. Ar gael: <https://research.virginia.edu/irb-sbs/protecting-confidentiality/#:~:text=In%20most%20cases%2C%20confidentiality%20can,outside%20of%20the%20research%20context>. (Defnyddio 18 Mai 2024)

YPO (2023) *Removing the barriers to outdoor play*. Ar gael: <https://www.ypo.co.uk/news-and-events/blog/barriers-to-outdoor-play-and-how-to-tackle-them> (Defnyddio 5 Mai 2024)